

CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Dyddiad Cyhoeddi: 20 Tachwedd 2017

STATWS: CAMAU I'W CYMRYD

CATEGORI: IECHYD Y CYHOEDD

Teitl: INTEGRATED GUIDANCE ON HEALTH CLEARANCE OF HEALTHCARE WORKERS AND MANAGEMENT OF HEALTHCARE WORKERS INFECTED WITH BLOODBORNE VIRUSES (HEPATITIS B, HEPATITIS C AND HIV)

Dyddiad dod i ben / Adolygu: AMHERTHNASOL

I'w weithredu gan:

Prif Weithredwyr - Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG

Er gwybodaeth:

Darparwyr Gofal Iechyd annibynnol

Rhestr ddsbarthu yn atodiad 4.

Angen gweithredu erbyn: Cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Sicrwydd i gael ei roi i Lywodraeth Cymru bod y camau gweithredu wedi cael eu cymryd erbyn 28 Chwefror 2018.

Anfonwyd gan: Dr Frank Atherton, y Prif Swyddog Meddygol / Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru
Yr Athro Jean White CBE, Prif Swyddog Nyrsio
Dr Colette Bridgman, y Prif Swyddog Deintyddol

Enw(au) Cyswllt yn Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru:
Stephen Barry, Is-adran Iechyd y Cyhoedd, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: Stephen.Barry@llyw.cymru Ffôn: 03000 628328

Dogfennau amgaeedig: Atodiad 1 – rhestr o ganllawiau sy'n cael eu cyfuno a'u disodli
Atodiad 2 – Templed lythyr at weithwyr gofal iechyd sy'n cynnal gweithdrefnau a allai arwain at gysylltiad
Atodiad 3 – Templed llythyr at dimau deintyddol clinigol sy'n ymgymryd â gweithdrefnau a allai arwain at gysylltiad mewn gofal sylfaenol
Atodiad 4 – Rhestr ddsbarthu'r cylchlythyr
Mae'r canllawiau *Integrated guidance on health clearance of healthcare workers and the management of healthcare workers infected with bloodborne viruses (hepatitis B, hepatitis C and HIV)* i'w gweld yn:
<https://www.gov.uk/government/publications/bbvs-in-healthcare-workers-health-clearance-and-management>

Annwyl gyfaiil

Integrated guidance on health clearance of healthcare workers and the management of healthcare workers infected with bloodborne viruses (hepatitis B, hepatitis C and HIV)

Crynodeb

Diben y cylchlythyr hwn yw rhoi gwybod ichi am: *Integrated guidance on health clearance of healthcare workers and the management of healthcare workers infected with bloodborne viruses (hepatitis B, hepatitis C and HIV)*.

Mae dolen i'r canllawiau ar gael yma:

<https://www.gov.uk/government/publications/bbvs-in-healthcare-workers-health-clearance-and-management>

Mae'r canllawiau integredig hyn yn dod â'r holl ganllawiau presennol ar reoli feirysau a gludir yn y gwaed mewn gweithwyr gofal iechyd ynghyd; maent yn cynnwys canllawiau ar roi cliriad iechyd a monitro gweithwyr gofal iechyd sy'n cynnal gweithdrefnau a allai arwain at gysylltiad a chynghor ar ymchwilio i weithwyr gofal iechyd y canfyddir bod ganddynt feirws a gludir yn y gwaed a'u rheoli. Mae'r canllawiau integredig hyn yn disodli'r holl ganllawiau blaenorol a restrir yn **Atodiad 1**.

Beth sydd wedi newid?

Er nad yw'r canllawiau integredig hyn yn cynrychioli newid mewn polisi, mae yna rai elfennau newydd sy'n cynnwys:

- y cysyniad o 'amgylchedd a allai arwain at gysylltiad'
- newidiadau i'r trefniadau ar gyfer profi am y feirws Hepatitis B ac adrodd ar y canlyniadau (caniateir i'r profion gael eu cynnal mewn labordai achrededig erbyn hyn yn hytrach na chyfyngu hyn i 'labordai penodedig')
- trefniadau ar gyfer cynnal ymarferion hysbysu cleifion.

Pwy sy'n cael eu heffeithio?

Mae'r polisi'n parhau bod rhaid i bob gweithiwr gofal iechyd newydd gael y gwiriadau iechyd safonol. Unigolyn sy'n dod i gysylltiad clinigol uniongyrchol am y tro cyntaf â chleifion y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yw gweithiwr gofal iechyd newydd, boed hynny fel gweithiwr bwrdd iechyd neu ymddiriedolaeth neu, gyda'u cytundeb, myfyrwyr sydd ar leoliad, cymrodorion ar ymweliad a chontractwyr. Mae angen cliriad iechyd ychwanegol ar bob gweithiwr gofal iechyd newydd sy'n cynnal gweithdrefnau a allai arwain at gysylltiad ym mhob lleoliad gofal iechyd gan gynnwys gofal sylfaenol (practisau meddygol a deintyddol), gofal eilaidd a lleoliadau cymunedol eraill.

Mae dyletswydd foesegol a chyfreithiol ar bob gweithiwr gofal iechyd, gan gynnwys y rheini sy'n hunangyflogedig neu'n gyflogedig yn y sector annibynnol, i ddiogelu eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac eraill, fel cydweithwyr a chleifion, a rhaid iddynt feddu ar ddealltwriaeth o faterion iechyd a diogelwch, a chydweithredu â hwy.

Mae diogelwch cleifion a hyder y cyhoedd o'r pwys mwyaf ac felly mae'n gwbl hanfodol bod gweithwyr gofal iechyd sydd wedi cael profion positif sy'n dangos bod ganddynt feirysau a gludir yn y gwaed, neu a allai fod wedi'u heintio â hwy, yn cynnal eu dyletswydd i ddatgan hynny wrth feddyg galwedigaethol. Mae hyn yn golygu bod gweithwyr gofal iechyd o dan rwymedigaeth barhaus i geisio cyngor proffesiynol am yr angen i gael profion os oes ganddynt reswm i gredu efallai y gallent fod wedi cael eu heintio gan glefyd trosglwyddadwy difrifol naill ai drwy ddigwyddiad penodol yn y gwaith neu y tu allan i'w hamgylchedd gwaith. Gallai methu â gwneud hynny dorri'r ddyletswydd gofal i gleifion.

Yn achos gweithiwr gofal iechyd sy'n ymwybodol ei fod wedi'i heintio ag un neu gyfuniad o HIV, HBV neu HCV, mae'n ddyletswydd ar y gweithiwr hwnnw i sicrhau ei fod yn cael ei asesu'n rheolaidd gan ei feddyg a cheisio cyngor iechyd galwedigaethol arbenigol priodol yn brydlon, a dilyn y cyngor hwnnw. Efallai y bydd rhaid i weithwyr gofal iechyd sy'n hunangyflogedig neu'n gwneud gwaith locwm drefnu cael cyngor gan feddyg galwedigaethol eu hunain os nad yw'n cael ei ddarparu gan yr asiantaeth locwm neu gyflogwr.

Camau Gweithredu ar gyfer Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG

Dylai byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG gysylltu â phob gweithiwr gofal iechyd sy'n cynnal gweithdrefnau a allai arwain at gysylltiad, gan gynnwys deintyddion mewn gofal sylfaenol, i'w hatgoffa o'u rhwymedigaethau parhaus i ofyn am gyngor proffesiynol yn brydlon ynglŷn â'r angen i gael eu profi os oes posibilrwydd y gallent fod wedi'u heintio gan feirws a gludir yn y gwaed. Mae templedi'r llythyrau i'w cael yn Atodiad 2 ac Atodiad 3.

Dylai byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau'r GIG roi gwybod i'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch am eu camau gweithredu a rhoi sicrwydd hefyd i Lywodraeth Cymru fod y gofynion uchod wedi'u bodloni. Anfonwch eich ymateb i: HealthProtection@llyw.cymru erbyn 28 Chwefror 2018 fan bellaf.

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn disgwyl i sefydliadau gofal iechyd gydymffurfio â'r holl safonau perthnasol a/neu ofynion statudol. Mae'n ystyried y canllawiau hyn ac eraill wrth ddatblygu ei dull at gynnal archwiliadau.


Darparwyr gofal iechyd annibynnol

Bydd darparwyr gofal iechyd annibynnol yn dymuno sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion uchod a sicrhau eu hunain felly fod pob gweithiwr gofal iechyd a gyflogir ganddynt wedi cael y gwiriadau clirio iechyd priodol.


Yn gywir



Dr Frank Atherton
Prif Swyddog Meddygol /
Cyfarwyddwr Meddygol GIG Cymru



Yr Athro Jean White CBE
Prif Swyddog Nyrso /
Cyfarwyddwr Nyrso GIG Cymru



Dr Colette Bridgman
Prif Swyddog Deintyddol

Mae'r canllawiau integredig hyn yn cyfuno ac yn disodli'r rhai a ganlyn:

Cyffredinol

[Health clearance for tuberculosis, hepatitis B, hepatitis C and HIV: New healthcare workers. Yr Adran Iechyd. Mawrth 2007](#) (Y rhan ar feirysau a gludir yn y gwaed o'r canllaw hwn yn unig; dylid parhau i ddefnyddio'r ddogfen fel canllaw ar wiriadau clirio iechyd mewn perthynas â thwbercwlosis)

HIV

[The Management of HIV infected Healthcare Workers who perform exposure prone procedures: canllawiau wedi'u diweddarau, Ionawr 2014. Public Health England](#)

Hepatitis B

[Hepatitis B infected healthcare workers and antiviral therapy. Yr Adran Iechyd. Mawrth 2007](#)

[Hepatitis B infected healthcare workers. Cylchlythyr y Gwasanaeth Iechyd, HSC 2000/020. Yr Adran Iechyd. 23 Mehefin 2000](#)

[Hepatitis B infected healthcare workers: guidance on implementation of Health Service Circular, HSC 2000/020. Yr Adran Iechyd. 2000](#)

[Protecting healthcare workers and patients from Hepatitis B: Recommendations of the Advisory Group on Hepatitis. Yr Adran Iechyd. Awst 1993](#)

[Protecting healthcare workers and patients from Hepatitis B. Canllawiau'r Gwasanaeth Iechyd, ar Hepatitis. HSG\(93\)40. Yr Adran Iechyd. 18 Awst 1993](#)

[Atodiad i HSG\(93\)40: Protecting healthcare workers and patients from hepatitis B - EL \(96\) 77. Yr Adran Iechyd. 26 Medi 1996](#)

[Atodiad i HSG\(93\)40: Protecting health care workers and patients from hepatitis B. Yr Adran Iechyd. Ebrill 2004](#)

Hepatitis C

[Hepatitis C infected healthcare workers. Cylchlythyr y Gwasanaeth Iechyd, HSC 2002/010. Yr Adran Iechyd. 14 Awst 2002](#)

[Hepatitis C Infected Healthcare Workers. Yr Adran Iechyd. Awst 2002](#)

Dyletswydd gweithwyr gofal iechyd sy'n cynnal gweithdrefnau a allai arwain at gysylltiad i wneud hunan-ddatganiad

Annwyl weithiwr,

Mae dyletswydd foesebol a chyfreithiol ar bob gweithiwr gofal iechyd, gan gynnwys y rheini sy'n hunangyflogedig neu'n gyflogedig yn y sector annibynnol, i ddiogelu ei iechyd a'i ddiogelwch ei hun ac eraill, fel cydweithwyr a chleifion, a rhaid iddo feddu ar ddealltwriaeth o faterion iechyd a diogelwch, a chydweithredu â hwy.

Mae diogelwch cleifion a hyder y cyhoedd o'r pwys mwyaf. Mae'n gwbl hanfodol felly fod gweithwyr gofal iechyd sydd wedi cael profion positif sy'n dangos bod ganddynt feirysau a gludir yn y gwaed, neu a allai fod wedi'u heintio â hwy, yn cynnal eu dyletswydd i ddatgan hynny wrth feddyg galwedigaethol.

Mae hyn yn golygu eich bod chi o dan rwymedigaeth barhaus i geisio cyngor proffesiynol am yr angen i gael profion os oes gennych reswm i gredu efallai y gallech fod wedi cael eich heintio gan glefyd trosglwyddadwy difrifol naill ai drwy ddigwyddiad penodol yn y gwaith neu y tu allan i'ch amgylchedd gwaith. Gallai methu â gwneud hynny dorri'r ddyletswydd gofal i gleifion.

Yn achos gweithiwr gofal iechyd sy'n ymwybodol ei fod wedi'i heintio ag un neu gyfuniad o hepatitis B, hepatitis C neu HIV, mae'n ddyletswydd ar y gweithiwr hwnnw i sicrhau ei fod yn cael ei asesu'n rheolaidd gan ei feddyg a cheisio cyngor iechyd galwedigaethol arbenigol priodol yn brydlon, a dilyn y cyngor hwnnw.

Mae dogfen ganllaw newydd *'Integrated guidance on the management of healthcare workers infected with bloodborne viruses (hepatitis B, hepatitis C and HIV) (2017)'* sy'n cyfuno amryw o ddogfennau ar gael yn:

<https://www.gov.uk/government/collections/bloodborne-viruses-bbvs-in-healthcare-workers>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon, cysylltwch â'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol drwy'r dulliau a ganlyn: XXXXX

Dyletswydd aelodau timau deintyddol sy'n cynnal gweithdrefnau a allai arwain at gysylltiad i wneud hunan-ddatganiad

At bob aelod o'r tîm deintyddol clinigol,

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Cylchlythyr Iechyd Cymru '*Integrated guidance on the management of healthcare workers infected with bloodborne viruses (hepatitis B, hepatitis C and HIV) (2017)*'

<https://www.gov.uk/government/collections/bloodborne-viruses-bbvs-in-healthcare-workers>

At hynny, mae Safonau y Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y tîm deintyddol yn dweud:

1.5.2 Rhaid ichi sicrhau eich bod wedi cael yr holl frechiadau angenrheidiol a rhaid ichi ddilyn y canllawiau sy'n ymwneud â feirysau a gludir yn y gwaed.

Diben y llythyr hwn yw eich atgoffa i ofyn am gyngor proffesiynol ar yr angen i gael eich profi os oes gennych reswm i gredu y gallech fod wedi bod yn agored i gael eich heintio gan glefyd trosglwyddadwy difrifol naill ai drwy ddigwyddiad yn y gwaith neu y tu allan i'ch amgylchedd gwaith. Gallai methu â gwneud hynny dorri'r ddyletswydd gofal i gleifion.

Mae dyletswydd foesegol a chyfreithiol ar bob aelod o dîm deintyddol i ddiogelu ei iechyd a'i ddiogelwch ei hun ac eraill, fel cydweithwyr a chleifion. Rhaid i bob aelod o dîm deintyddol sy'n ymwybodol ei fod wedi'i heintio â hepatitis B, hepatitis C neu HIV sicrhau ei fod yn cael ei asesu'n rheolaidd gan ei feddyg a cheisio cyngor iechyd galwedigaethol arbenigol priodol yn brydlon, a dilyn y cyngor hwnnw.

Mae Panel Cynghori'r DU yn darparu gwybodaeth i dimau deintyddol ar Weithdrefnau a Allai Arwain at Gysylltiad. Hynny yw, gweithdrefnau clinigol lle gallai dwylo'r gweithiwr (a fydd yn gwisgo menyg) ddod i gysylltiad ag offerynnau miniog, blaen nodwyddau neu rannau miniog o feinwe yn y claf lle gall na fydd y dwylo neu'r bysedd yn weladwy bob amser.

<https://www.gov.uk/government/publications/general-dentistry-exposure-prone-procedure-categorisation>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon, cysylltwch â'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol drwy'r dulliau a ganlyn: XXXXX

Rhestr Ddosbarthu'r Cylchlythyr

Prif Weithredwyr	Byrddau lechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Cadeiryddion	Byrddau lechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Ysgrifenyddion Byrddau	Byrddau lechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Cyfarwyddwr Meddygol	Byrddau lechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Cyfarwyddwr Nyrsio	Byrddau lechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Meddygon a Nyrsys lechyd Galwedigaethol	Byrddau lechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Microbiologyddion a Feirolegyddion Ymgynghorol	Byrddau lechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Meddygon a Nyrsys Rheoli Heintiau	Byrddau lechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG
Prif Weithredwr	Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru
Prif Weithredwr	lechyd Cyhoeddus Cymru
Cadeirydd	lechyd Cyhoeddus Cymru
Cyfarwyddwyr lechyd y Cyhoedd	Byrddau lechyd
Ymgynghorwyr mewn Clefydau Trosglwyddadwy	lechyd Cyhoeddus Cymru
Ymgynghorwyr mewn lechyd Deintyddol Cyhoeddus	lechyd Cyhoeddus Cymru
Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth	Cymdeithas Feddygol Prydain (Cymru)
Cyfarwyddwr	Y Gymdeithas Feddygol
Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth	Pwyllgor Meddygol Cymru
Cyfarwyddwr	Y Coleg Nyrsio Brenhinol
Prif Weithredwr	Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth
Cyfarwyddwr	Cymdeithas Ddeintyddol Prydain yng Nghymru
Cadeirydd	Pwyllgor Ymarferwyr Deintyddol Cyffredinol Cymru
Cadeirydd ac Ysgrifenyddiaeth	Pwyllgor Deintyddol Cymru
Rheolwr Technegol Llywodraeth Ganolog a sector y GIG	Swyddfa Archwilio Cymru
Cyfarwyddwr	Rhwydwaith Canser De Cymru
Rheolwr Gyfarwyddwr Dros Dro	Pwyllgor Gwasanaethau lechyd Arbenigol Cymru (WHSSC)
Ysgrifennydd y Pwyllgor	Pwyllgor Gwasanaethau lechyd Arbenigol Cymru (WHSSC)
Prif Gomisiynydd Dros Dro y Gwasanaethau Ambiwlans	Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC)
Cadeirydd	Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (EASC)

Ysgrifennydd y Pwyllgor	Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwllans Brys (EASC)
Cyfarwyddwr	Cydweithrediaeth Iechyd Cymru Gyfan
Rheolwr Gyfarwyddwr	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Rheoli Busnes	Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru
Ysgrifenyddiaeth	Cymdeithas Gofal Iechyd Annibynnol Cymru